**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**10 MEHEFIN 2020**

Cofnodion cyfarfod dros y we Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher 10 Mehefin 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Roedd y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg) a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) yn bresennol fel arsylwyr.

**HEFYD YNO:** Y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Gynllunwyr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## 64. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 65. SYLWADAU HWYR

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau hwyr.

## 66. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2020.

Cywirdeb

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge ei fod wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod, a gofynnodd am newid y cofnodion i gofnodi hyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Lloyd gymeradwyo'r cofnodion ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Kevin Hughes.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 67. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**68.** **ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**69.** **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.09 pm)

.................................................

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o weddarllediadau: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## Y PWYLLGOR CYNLLUNIO - 10 MEHEFIN 2020

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060671 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Cynllunio Ôl-weithredol ar gyfer estyniad arfaethedig i eiddo, estyniad dormer i'r cefn mwy na'r hyn a gymeradwywyd o dan gais cynllunio rhif 056862 yn 2 Etna Court, Bwcle. (060671) | | Cymeradwywyd yn unol ag argymhelliad y swyddog gyda dau amod ychwanegol yn ymwneud â<br><br>(1) Gosod amod yn gofyn o fewn 3 mis i'r caniatâd cynllun rhif 17.5753/4 2 o 2 adolygiad B i gael ei ddiwygio i ddangos safle ffenestri bi-fold y llawr gwaelod nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r cynllun a gymeradwywyd; a<br><br>(2) Gosod amod i atal unrhyw olau allanol i gael ei godi ar unrhyw ran o'r datblygiad a gymeradwyir gan hyn. |
| 060811 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Amlinellol – dymchwel bloc o 4 tŷ teras Fictoraidd ac ailddatblygu at ddibenion preswyl yn 80 – 86 Ffordd Yr Wyddgrug, Bistre, Bwcle. (060811) | | Fod y cais cynllunio yn cael ei ganiatáu yn amodol ar yr amodau a nodir yn adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi). |
| 059568 | | Materion Cyffredinol - Cais amlinellol ar gyfer adeiladu annedd gweithwyr amaethyddol ar Fferm Maes Alyn, Ffordd Loggerheads, Cilcain.<br>(059568) | | Fod yr amodau arfaethedig fel yr amlinellir ym mharagraff 5.05 yr adroddiad yn cael eu gosod ar gais cynllunio 059568 yn unol â phenderfyniad yr Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019. |